Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy
Clwydian Range and Dee Valley
Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol
Area of Outstanding Natural Beauty

# CYDBWYLLGOR
# BRYNIAU CLWYD A DYFFRYN DYFRDWY
# ARDAL O HARDDWCH NATURIOL EITHRIADOL

**Cynhaliwyd ar: 2 Chwefror 2017**

**Aelod Arweiniol / Swyddog: Howard Sutcliffe**

**Awdur yr Adroddiad: David Shiel**

**Teitl: Statws Awyr Dywyll**

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r Adroddiad yn amlinellu'r broses a'r manteision o ymgeisio am Ddynodiad Awyr Dywyll gyda Chymdeithas Awyr Dywyll Ryngwladol. Mae yna ystod eang o fanteision i'n hiechyd a'n lles, i fioamrywiaeth ac ar gyfer y sector busnes twristiaeth trwy gynnal tywyllwch naturiol.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mae angen penderfyniad ynghylch ymgeisio am y dynodiad ar gyfer Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy fel Cymuned Awyr Dywyll fel y diffinnir gan y Gymdeithas Awyr Dywyll Ryngwladol.

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

wrexham COUNTY BOROUGH BWRDEISTREF SIROL wrecsam

CYNGOR Sir y Fflint Flintshire COUNTY COUNCIL

3. **Beth yw'r argymhellion?**

   Argymhelliad: Ymgeisio am y dynodiad ar gyfer Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy fel Cymuned Awyr Dywyll - fel y diffinnir gan y Gymdeithas Awyr Dywyll Ryngwladol.

4. **Manylion yr adroddiad.**

   Yn 2017, fe gomisiynwyd BRO ac Awyr Dywyll Cymru gan AHNE i edrych ar y posibilrwydd o gael dynodiad Awyr Dywyll ar gyfer yr AHNE – er mwyn amlinellu'r manteision ac i lunio asesiad rhagarweiniol o safon yr awyr ar draws yr AHNE.

   Er bod yna ychydig o ardaloedd o bryder (Llangollen a rhywfaint o'r ardaloedd yn y gogledd-ddwyrain), mae asesiad cychwynnol o safon yr awyr yn yr AHNE yn dangos y byddai ansawdd yr awyr ar y cyfan yn bodloni'r safonau gofynnol ar gyfer dynodiad Awyr Dywyll.

   Byddai dynodiad Awyr Dywyll yn dangos ymrwymiad i gynnal a gwella ansawdd yr awyr fin nos yn yr AHNE a'r manteision cysylltiedig:

   **Iechyd –** *Dangoswyd bod llygredd golau yn effeithio ar batrymau cysgu pobl gan fod yn gysylltiedig â salwch hir dymor megis gordewdra, iselder, diabetes a chancr.*
   **Bioamrywiaeth** – *mae 60% o'n bywyd gwyllt yn dibynnu ar dywyllwch i oroesi – mae llygredd golau wedi dylanwadu ar ymddygiad anifeiliaid ac ecosystemau.*
   **Economi** – *Mae statws Awyr Dywyll mewn ardaloedd megis Eryri, Bannau Brycheiniog a Northumberland wedi dod yn elfen annatod o'r economi twristiaeth lle mae ansawdd yr awyr yn rhan bwysig o'r cynnig twristiaeth.*
   **Cymunedol** – *Yn amlwg mae gostwng y lefelau goleuadau yn mynd i arwain at fanteision o ran arbed costau a bydd yn lleihau allyriadau carbon.*

   Mae'r adroddiad yn argymell gwneud cais i'r Gymdeithas Awyr Dywyll Ryngwladol am Statws Cymuned Awyr Dywyll. Yn rhan o'r cais bydd angen:

   - Cynnal archwiliad goleuadau ar gyfer yr AHNE – gan fanylu ar leoliad a'r math o oleuadau stryd
   - Llunio Cynllun Goleuadau ar gyfer yr AHNE gyda chymeradwyaeth y 3 Awdurdod
   - Ymgysylltu ymhellach â busnesau twristiaeth
   - Llunio rhaglen Addysg
   - Monitro awyr dywyll ymhellach ac ymrwymiad i gynnal y broses fonitro'n flynyddol.

5. **Sut mae'n cyfrannu at Flaenoriaethau Cynlluniau Rheoli AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy?**

   Mae cyflwyno cais i'r Gymdeithas Awyr Dywyll Ryngwladol yn cydnabod cyfraniad i Amcanion Cynllun Rheoli yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol:

   - PolART1 - Hyrwyddo defnydd cynaliadwy a mwynhad a dealltwriaeth o dirwedd yr AHNE mewn ffordd sy'n cyfrannu at ffyniant lleol a chynhwysiant cymdeithasol

- PolCP3 - Sicrhau bod busnesau a chymunedau lleol yn teimlo ymdeimlad o berchnogaeth a chyfrifoldeb dros eu hamgylchedd
- PCO3 - Meithrin ymdeimlad o le a balchder lleol i sicrhau lles cymdeithasol
- LQCO4 - Gwarchod tawelwch yr AHNE a chymryd camau lle bo'n bosib i leihau llygredd sŵn a golau

## 6. Faint fydd yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Amcangyfrifir bydd y gost i wneud cais i'r Gymdeithas Awyr Dywyll Ryngwladol a Chynllun Goleuadau Cysylltiedig/gwaith monitro yn £20,000.

Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi darparu £10,000 ac mae cyllid LEADER wedi cael ei glustnodi fel ffynhonnell addas o arian cyfatebol.

Fe allai'r Cynllun Rheoli Goleuadau ddod o hyd i gamau gweithredu angenrheidiol ar gyfer Gwasanaethau Goleuadau Stryd yn y 3 Awdurdod. Bydd llunio'r cynllun hwn – gyda'r Gwasanaethau yn y 3 Awdurdod yn nodi lle bydd y costau a'r arbedion yn debygol o fod.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai'r templed AEG wedi'i lenwi gael ei atodi fel atodiad i'r adroddiad.

- Sir Ddinbych ffyniannus - **Cadarnhaol**
- Sir Ddinbych gwydn - **Cadarnhaol**
- Sir Ddinbych mwy iach - **Cadarnhaol**
- Sir Ddinbych sydd yn fwy cyfartal – **Cadarnhaol**
- Sir Ddinbych gyda chymunedau cydlynol - **Cadarnhaol**
- Sir Ddinbych lle mae diwylliant bywiog a'r iaith Gymraeg yn ffynnu - **Cadarnhaol**
- Sir Ddinbych sy'n gyfrifol yn fyd-eang - **Niwtral**

Mae'r prosiect yn canolbwyntio ar wella safon yr awyr ddu ar draws yr AHNE a'r sawl mantais y bydd hyn yn ei gael o ran iechyd y cyhoedd, bioamrywiaeth, arbed ynni a'r economi twristiaeth. Mae'r manteision yn amlwg iawn mewn ardaloedd megis Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Parc Cenedlaethol Eryri, Northumberland ac ardaloedd eraill sydd â Statws Awyr Dywyll.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cyflawni gyda'r Pwyllgor Archwilio ac eraill?

Mae'r adroddiad yn nodi'r ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda:
Sector Busnes – Grŵp Twristiaeth Bryniau Clwyd, Fforwm Twristiaeth Sir Ddinbych, Grwpiau Cymunedol a Gwirfoddol.
Ymgynghori gyda Phartneriaeth AHNE a'r Gweithgor Partneriaeth.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Amh.

## 10. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Mae'r sail Gyfreithiol yn Adran 101 (5) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 a Deddf Llywodraeth Leol 2000, lle y gall Awdurdodau Lleol wneud trefniadau i 'gyflawni swyddogaethau ar y cyd gydag un neu fwy o Awdurdodau Lleol eraill drwy Gydbwyllgor.'